Y CRIW Mentrus

Cynradd Uwch

# Adnodd 1a:
## Geirfa Y Criw Mentrus

| Gair | Beth mae'n ei olygu? |
|---|---|
| Cyfrifon | Cofnod o'r swm o arian a wariwyd ac a dderbyniwyd. |
| Hysbysebu | Cyhoeddiad a fydd yn dweud wrth bobl am eich cynnyrch neu wasanaeth. |
| Balans | Y swm o arian sydd gennych ar ôl i'w wario. |
| Menter | Busnes sy'n prynu ac yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau er mwyn gwneud arian. |
| Cynllun Busnes / Cynllun Gweithredu | Rhestr o'r camau y byddwch yn eu cymryd i wneud eich busnes yn llwyddiant. |
| Cystadleuwyr | Pobl sy'n ceisio gwerthu nwyddau tebyg i'r un bobl â chi. |
| Costau | Cyfanswm yr arian rydych chi'n ei wario wrth wneud a gwerthu cynnyrch neu wasanaethau. |
| Cwsmeriaid | Y bobl rydych chi'n eu gwerthu iddynt. |
| Y Criw Mentrus | Y pedwar cymeriad o'r gystadleuaeth fenter genedlaethol i'ch atgoffa am y sgiliau ACCT. |
| Entrepreneur | Rhywun sy'n rhedeg ei fusnes ei hun. |
| Entrepreneuriaeth | Rhedeg eich busnes eich hun. |
| Cyllid | Unrhywbeth sy'n ymwneud ag arian. |
| Grŵp ffocws | Grŵp o bobl a fydd yn profi'ch cynnyrch ac yn dweud wrthych beth yw eu barn arno. |
| Grant | Rhodd o arian nad oes angen ei ad-dalu. |
| Incwm | Cyfanswm yr arian a dderbynnir yn gyfnewid am wasanaethau neu o werthu cynhyrchion. |
| Lansio | Yr eiliad y byddwch chi'n cyflwyno'ch busnes newydd i'r byd. |

| Gair | Beth mae'n ei olygu? |
|---|---|
| Benthyciad | Arian y mae rhywun yn ei fenthyg i chi sydd angen ei ad-dalu. |
| Logo | Dyluniad neu symbol arbennig sy'n cynrychioli'ch cynnyrch. |
| Marchnad | Lle y byddwch yn penderfynu gwerthu eich cynnyrch. |
| Ymchwil i'r farchnad | Pan fyddwch chi'n casglu gwybodaeth i'ch cynorthwyo i ddeall yr hyn y mae pobl ei eisiau, ei angen neu ei brynu. |
| Marchnata | Gweithgarwch fydd yn annog pobl i brynu'ch cynnyrch. |
| Cyflwyniad | Cyflwyno neu egluro'ch syniad busnes mewn ychydig frawddegau. |
| Pris | Y swm o arian a roddir wrth dalu am gynnyrch neu wasanaeth. |
| Cynnyrch | Yr eitemau rydych chi'n eu creu i'w gwerthu. |
| Cynhyrchu | Gwneud eich cynnyrch. |
| Elw | Y swm o arian a wnewch ar ôl i chi ystyried eich holl gostau. |
| Hyrwyddo | Unrhyw beth y gallwch ei wneud i sicrhau gwell llwyddiant i'ch cynnyrch. |
| Rheoli ansawdd | Gwirio bod eich cynnyrch yn ddiogel ac yn ddigon da i'w gwerthu. |
| Adnoddau | Yr hyn sydd eu hangen arnoch i baratoi eich cynhyrchion neu ddarparu'r gwasanaeth. |
| Gwerthu | Gwerthu cynnyrch neu wasanaeth yn gyfnewid am arian. |
| Gwerthu | Darbwyllo pobl i brynu'ch cynnyrch neu wasanaeth. |
| Gwasanaeth | Darparu rhywbeth y gallai fod rhywun ei angen (e.e. gweithgaredd, rhywbeth i'w helpu). |
| Slogan | Ymadrodd byr i hysbysebu cynnyrch neu wasanaeth. |
| Entrepreneur cymdeithasol | Person sy'n cychwyn busnes i helpu pobl eraill (nid er mwyn gwneud arian yn unig). |
| Arolwg | Holiadur byr i ddarganfod gwybodaeth a all helpu'ch busnes. |
| Cynulleidfa darged | Y bobl rydych chi am werthu iddyn nhw. |
| PGU (Pwynt Gwerthu Unigryw) | Yr un peth sy'n gwneud eich cynnyrch yn wahanol i gynnyrch unrhyw un arall. |



Llywodraeth Cymru
Welsh Government